



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2017–18

Tachwedd 2018

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD
PLANT CYMRU 2017-18**

**Rhagair gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC,
Prif Weinidog Cymru**



a Huw Irranca Davies AC, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol



RHAGAIR

Fel llywodraeth, rydym yn croesawu adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant ar gyfer 2017-18. Mewn cyfnod o newid mor sylweddol, rydym yn parhau'n ymrwymedig i gynnal hawliau plant a phobl ifanc a gwrandao ar ac ystyried eu barn ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Rydym yn rhannu gweledigaeth y Comisiynydd Plant y dylai plant a phobl ifanc fod yn ganolog ym mhopeth a wnawn, boed yn bolisi, rhaglenni neu ddeddfwriaeth. Rydym am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i iechyd, lles, deilliannau addysgol a rhagolygon plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn mynd ymlaen i wireddu eu potensial.

Mae gwaith Comisiynydd Plant Cymru yn amhrisiadwy gan sicrhau ein bod yn clywed lleisiau plant a phobl ifanc, bod eu pryderon yn cael eu lleisio a bod rhywun yn diogelu a hyrwyddo eu hawliau ar lefel genedlaethol. Mae'r Comisiynydd Plant yn gweithio'n ddiflino i wneud hyn. Mae hon yn rôl hollbwysig ac rydym yn falch iawn o gael gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd i warchod a datblygu hawliau pobl ifanc.

Yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18, mae'r Comisiynydd Plant wedi gwneud 15 argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Fel llywodraeth, rydym yn falch ein bod yn gallu derbyn neu dderbyn mewn egwyddor yr holl argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i hawliau plant a'n penderfyniad i'w cynnwys a'u harddel.

Mae ein holl blant a phobl ifanc yn haeddu tyfu i fyny mewn Cymru lle maent yn cael cyfrannu at bob penderfyniad a fydd yn effeithio arnynt, a dyna pam y byddwn fel llywodraeth yn dal ati i ymgysylltu â gwrandao arnynt. Ni yw'r unig lywodraeth yn y DU sy'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar hyn o bryd am Brexit ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod eu barn ar Brexit yn cael ei chlywed ar lefelau uchaf Llywodraeth.

Edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda'r Comisiynydd Plant ar y materion hyn a'n blaenoriaethau allweddol a nodir yn ein strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb* yn y dyfodol.



Carwyn Jones AC



Huw Irranca-Davies AC

CYFLWYNIAD	1
AMGYLCHEDD Y TEULU A GOFAL AMGEN	2
1. AMDDIFFYNIAD CYFARTAL	2
2. YMADAWYR GOFAL IFANC, BREUDDWYDION CUDD	2
3. EIRIOLAETH	3
AMDDIFFYN RHAG ECSBLOETIO A THRAIS	4
4. DEWIS ADDYSGU GARTREF	4
5. CAM-DRIN AC ECSBLOETIO RHYWIOL	5
ADDYSG, DINASYDDIAETH A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL	6
6. ADDYSG PERTHNASOEDD IACH	6
7. DIWYGIO'R CWRICWLWM	6
8. RHAGLEN CYSWLLT YSGOLION CYMRU GYFAN	7
9. TRAFNIDIAETH	7
10. CANLLAWIAU 'PARCHU ERAILL'	8
SAFON BYW SY'N DDIGONOL	9
11. IECHYD MEDDWL	9
12. EIRIOLAETH IECHYD	10
ATODIAD A – CRYNODEB O YMATEBION LLYWODRAETH CYMRU	12

CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18 ar 1 Hydref 2018. Mae modd gweld yr adroddiad trwy glicio [yma](#).

Mae'r adroddiad yn nodi rhai o gyflawniadau allweddol swyddfa'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyflawniadau blwyddyn 1 a 2 mewn perthynas â chynllun strategol 3 blynedd y Comisiynydd (ar dudalen 7 o'r adroddiad) ac uchafbwyntiau'r gwaith craidd (tudalen 23). Mae gan yr adroddiad ffocws cadarn ar hawliau plant drwy integreiddio gwasanaethau.

Eleni, mae'r Comisiynydd wedi gwneud 15 o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried ac ymateb iddynt. Mae'r argymhellion yn cynnwys ystod eang o feysydd ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol;
- Dewis Addysgu Gartref;
- Cam-drin ac Ecsbloetio Rhywiol;
- Diwygio'r Cwricwlwm; a
- Darpariaeth Iechyd Meddwl

Crynohir yr argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd a'r prif ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob argymhelliad yn Atodiad A.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi argymhellion y Comisiynydd a'r prif ymateb gan Lywodraeth Cymru ac yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn fanylach.

Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

1. Amddiffyniad Cyfartal

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Mae'r Comisiynydd Plant yn argymhell y dylai Bil gael ei gyflwyno cyn gynted â phosib i sicrhau bod ymrwymiad y Llywodraeth yn cael ei gyflawni.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Ym mis Gorffennaf 2018, pwysleisiodd Prif Weinidog Cymru ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant, trwy gyflwyno Bil i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol, o fewn amserlen ddeddfwriaethol o 3 blynedd (rhwng Medi 2018 a Gorffennaf 2019). Pe bai'n cael ei phasio, bydd y ddeddfwriaeth yn gwahardd rhieni a'r rhai sy'n gweithredu yn rhinwedd 'loco parentis' yng Nghymru rhag rhoi cosb gorfforol i blant.

2. Breuddwydion Cudd

Argymhelliad y Comisiynydd Plant

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymadawyr gofal ac awdurdodau lleol i gynhyrchu gwybodaeth ariannol glir sydd ar gael yn genedlaethol, i helpu pobl ifanc a'u hymgyngorwyr personol i gael mynediad i'r ystod o grantiau, budd-daliadau a phethau y gallant eu hawlio sydd ar gael iddynt wrth adael gofal.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Gan adeiladu ar y dull llwyddiannus a gymerwyd y llynedd i gyflawni argymhellion [Breuddwydion Cudd](#), bydd y Grŵp Cyngori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant yn ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r argymhelliad hwn er mwyn i ymadawyr gofal ar lefel genedlaethol wybod sut i gael gafael ar wybodaeth glir, gyfoes a chynhwysfawr.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Breuddwydion Cudd, ymgorfforwyd yr argymhellion yn y rhaglen waith Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant, gyda chefnogaeth adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae awdurdodau lleol Cymru wedi adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar sut mae'r arian ychwanegol a ddarparwyd wedi'i ddefnyddio, fel a ganlyn:

- Mae dros 1,900 o blant sydd wedi profi gofal ledled Cymru wedi derbyn cronfeydd drwy'r Gronfa Dydd Gŵyl Dewi gwerth £1 miliwn i'w cefnogi i addasu i fywyd fel oedolion ac i annibyniaeth;
- Darparwyd £1 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol a arweiniodd at recriwtio 20 o Gynghorwyr Personol ledled Cymru, gyda dros 500 o ymadawyr gofal yn manteisio ar y cynnig estynedig o gymorth hyd at eu bod yn 25 oed; a

- Darparwyd £625,000 i gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu lleoliadau gwaith/hyfforddiaethau ar gyfer pobl ifanc yn eu gofal, gan arwain at 70 o blant a oedd wedi profi gofal yn cymryd rhan mewn cynlluniau lleoliad gwaith awdurdodau lleol ledled Cymru.

3. Eiriolaeth

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Mae'r Comisiynydd Plant yn argymhell bod Cod Ymarfer Rhan 10 yn cael ei newid i roi grym statudol i'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol, gan gynnwys pob un o'r dogfennau cysylltiedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddarau Rhan 10 o God Ymarfer ar Eiriolaeth (y Cod) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i ystyried y Dull Cenedlaethol. Byddai unrhyw ddiwygiadau i'r Cod ond yn cael effaith statudol ar awdurdodau lleol.

4. Dewis Addysgu Gartref

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r polisi wedi'i ddiweddarau ar gyfer ymgynghori eleni, gyda'r nod o gyflawni'r tri phrawf yma'n llawn:

- Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am bob plentyn yng Nghymru, heb i neb ohonynt lithro o dan radar y gwasanaethau sydd ar gael i bawb, a'r gymdeithas yn gyffredinol;
- Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch; a
- Ni ellir cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef y dylai pob plentyn gael cyfle i gael eu gweld, a gwrando ar eu barn, gan gynnwys eu barn am eu haddysg, a'u profiadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn y tri phrawf**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon Comisiynydd Plant Cymru ynghylch amseru'r ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r canllawiau statudol. Mae datblygu'r rheoliadau a'r canllawiau statudol yn golygu cryn waith. Elfen allweddol o hyn yw ymgysylltu'n eang ag ystod eang o randdeiliaid, nid dim ond ar elfennau addysgol y canllawiau statudol yn unig, ond hefyd ar y mater ehangach o allu manteisio ar wasanaethau cyffredinol. Yn ogystal, rydym yn datblygu llawlyfr ar gyfer rhieni sy'n addysgu eu plant gartref ar hyn o bryd neu sy'n ystyried yr opsiwn hwn. Gan ystyried hyn i gyd, nid yw'n ymarferol dod â'r ymgynghoriad ymlaen gan y byddai'n wirioneddol beryglu datblygiad a gweithrediad y polisi diwygiedig. Mae'n hollbwysig ein bod yn cael hyn yn iawn i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu barn y Comisiynydd y dylid ystyried pob plentyn yng Nghymru. Law yn llaw â'r gwaith ar addysgu gartref, rydym wedi dechrau gweithio ar draws adrannau i gydlynu a sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosib i blant gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, a chael eu gweld ganddynt, a bod hyn yn sbarduno ymateb diogelu priodol a chymesur.

Rydym yn bwriadu cryfhau'r gefnogaeth i'r gymuned addysgu gartref ledled Cymru, gan gynnwys helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael yr un cyfleoedd i allu manteisio ar wasanaethau cyffredinol. Bydd y pecyn hwn yn cynnwys: sicrhau bod Hwb ar gael i blant sy'n cael eu haddysgu gartref; cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol; cymorth i gofrestru ar gyfer arholiadau; pwyso a mesur opsiynau ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu gartref i ddysgu Cymraeg; a chynnig clir o gymorth gan Gyrfa Cymru. Yn ogystal â hyn, byddwn yn ystyried datblygu adnoddau ar-lein i godi ymwybyddiaeth o addysgu gartref ymysg gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod datblygu'r protocolau hyd gydag awdurdodau lleol ac addysgwyr cartref i sicrhau bod y pecyn cymorth yn diwallu anghenion y gymuned addysgu gartref.

Yn y dyfodol, os ydym yn credu bod y dull hwn wedi bod yn annigonol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i nodi plant nad ydynt yn derbyn addysg addas, yna byddwn yn ystyried pa fesurau pellach sydd angen i ni eu dilyn, gan gynnwys y posibilrwydd o ddeddfwriaeth newydd.

5. Cam-drin ac Ecsbloetio Rhywiol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod darpariaeth Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd yn cynnwys mynediad 24/7 i rota o bediatregwyr ac archwilwyr meddygol fforensig sydd wedi'u hyfforddi'n addas, fel nad oes rhaid i unrhyw blentyn aros am oriau lawer neu hyd yn oed ddyddiau am archwiliad, a bod gwasanaethau cwnsela ac adferiad digonol ar gael i ddioddefwyr ledled Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na ddylai unrhyw un, boed yn oedolyn neu'n blentyn, orfod aros am wasanaethau ar ôl unrhyw achos o drais rhywiol. Gofal ac anghenion y dioddefwr ddylai fod yr ystyriaeth bennaf ym mhob gwasanaeth.

Cafwyd problemau ynghylch darpariaeth gwasanaethau paediatrig yn y blynyddoedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae'r GIG yn arwain gwaith i ddatblygu model cynaliadwy a phriodol o wasanaethau ymosodiadau rhywiol ledled de, gorllewin Cymru a Phowys. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r Heddlu, asiantaethau diogelu, trydydd sector ac eraill ac yn cynnwys ystyried gwasanaethau plant. Bydd gwaith yn parhau gydol 2018 ac ymlaen i 2019. Yn y cyfamser, mae'r GIG yn gweithio gyda'i bartneriaid i sicrhau y gellir cynnig darpariaeth Archwilwyr Meddygol paediatrig a Fforensig ar gyfer plant yn amserol ac yn unol ag anghenion y person ifanc.

Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

6. Addysg Perthnasoedd Iach

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu argymhellion adroddiad eu Panel arbenigol, ac yn gwneud addysg perthnasoedd iach yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd. Dylai addysg perthnasoedd iach fod yn seiliedig ar hawliau ac yn cael ei llywio gan ymwneud dysgwyr â'r dyluniad.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn gynt yn y flwyddyn y byddai Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn elfen statudol o'r cwricwlwm newydd. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion arloesol a Swyddfa'r Comisiynydd Plant i archwilio sut y gellir cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddatblygu dulliau seiliedig ar hawliau o ran addysg perthnasoedd.

7. Diwygio'r Cwricwlwm

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Bod canlyniadau cyflawni'r cwricwlwm newydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu am eu hawliau, a bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn darparu sylfaen ar gyfer egwyddorion tywys darparu'r cwricwlwm. Dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc gael ei wreiddio'n systematig yng nghyfnod nesaf datblygu'r cwricwlwm.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Deilliannau Cyflawni a ddatblygwyd gan ysgolion arloesol yn cynnwys dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'u hawliau nhw a hawliau eraill ac ymgysylltu â nhw. Dros yr hydref, bydd swyddogion ac ysgolion arloesi yn gweithio i archwilio sut y gall egwyddorion tywys gefnogi datblygiad dull seiliedig ar hawliau ar lefel ysgol. Mae is-grŵp o'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol wedi cyfarfod i ddatblygu ymagwedd at gyfranogi plant a phobl ifanc a fydd yn cael ei chyflwyno'n raddol yng nghanam nesaf datblygu'r cwricwlwm.

8. Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gytuno ar fodel ariannu gyda'r pedwar heddlu er mwyn sicrhau bod holl ysgolion Cymru yn parhau i fwynhau manteision perthynas gadarnhaol gyda swyddog cyswllt â'r heddlu, a bod rôl y rhaglen o ran cyfrannu at Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn y cwricwlwm newydd yn gydlynus ac yn addas at y dyfodol. Dylid cynnal asesiad o effaith unrhyw benderfyniad ynghylch dyfodol y Rhaglen ar hawliau plant

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n dal ati i ddarparu cyllid ar gyfer Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn 2019/20.

9. Trafnidiaeth

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- Bod y cynllun newydd, fan lleiaf, yn sicrhau bod tocyn plentyn yn cael ei estyn i 18 oed.
- Bod CRIA yn cael ei gynnal ar gynigion i ddiwygio'r cynllun Fy Nhocyn Teithio er mwyn canfod unrhyw grwpiau a allai gael eu heithrio, fel rhieni ifanc a gofalwyr, ymadawyr gofal sy'n dilyn hyfforddiant yn y gweithle neu brentisiaeth, a'r rhai sy'n gwneud gwaith gwirfoddol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn y ddau**

Nid yw deddfwriaeth gyfredol yn gadael i ni ei gwneud yn ofynnol i brisiau tocynnau plant gael ei estyn hyd at 18 oed, ond ar ôl trafodaethau â'r diwydiant bysys rydym wedi sicrhau gostyngiad o draean i bobl ifanc 16 i 18 oed ers mis Medi 2015: mae hynny'n parhau dan y cynllun newydd.

Mae Asesiad o Effaith Integredig wedi'i gwblhau i wella'r hen gynllun 16 i 18 oed.

Ar 12 Tachwedd, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth fanylion y cynllun wedi'i wella: cytunwyd â'r diwydiant bysys y byddai oedran cymhwysedd yn cael ei godi i gynnwys pobl ifanc 19, 20 a 21 oed.

Bydd y gwelliannau a drafodwyd yn cynnwys rhieni ifanc, gofalwyr ac ymadawyr gofal sy'n derbyn hyfforddiant yn y gweithle neu sydd ar brentisiaethau, ynghyd â

gwirfoddolwyr. Bydd yr holl categorïau o bersonau a awgrymwyd gan y Comisiynydd ac eraill yn cael eu cynnwys yn yr ystod oedran 16 i 21 oed.

10. Canllawiau 'Parchu Eraill'

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Bod canllawiau 'Parchu Eraill' Llywodraeth Cymru yn gofyn bod ysgolion yn integreiddio strategaethau gwrthfwlio cadarn a lywiwyd gan blant a phobl ifanc, fel rhan o ddull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno'n llawn â'r rhesymeg wrth wraidd yr argymhelliad. Mae strategaethau gwrthfwlio cadarn yn amlwg yn elfen bwysig o ymagwedd ysgol gyfan at lesiant.

Rydym eisoes yn gweithio i wella canllawiau gwrthfwlio Llywodraeth Cymru - Parchu Eraill. Rydym hefyd yn datblygu gwaith yn seiliedig ar ymagwedd ysgol gyfan at lesiant sydd yn ei gyfnodau cynnar, felly bydd angen i ni roi ystyriaeth ofalus i sut byddwn yn rhoi newidiadau pellach ar waith.

Safon Byw sy'n Ddigonol

11. Iechyd Meddwl

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- Bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu drwy fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn sefydlu strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol i blant a phobl ifanc, a fydd yn adrodd i'r BPRh. Dylen nhw fynnu hefyd bod BPRhau yn cymryd camau i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl plant i dimau amlddisgyblaeth, a fydd yn ymateb i anghenion eu poblogaethau plant a phobl ifanc lleol y mae angen cefnogaeth a thriniaeth emosiynol, ymddygiad, neu iechyd meddwl arnynt.
- Bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pendant tuag at gomisiynu darpariaeth newydd sy'n gallu diwallu anghenion gofal ac iechyd meddwl y nifer bychan o bobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiad ac emosiynol heriol iawn, nad oes fawr ddim darpariaeth breswyl addas ar eu cyfer yng Nghymru ar hyn o bryd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn mewn Egwyddor a Derbyn**

Rydym yn derbyn yr egwyddor o hyrwyddo dulliau amlasiantaeth o gefnogi plant a phobl ifanc a chryfhau'r broses o integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl ar gyfer plant.

Mae canllawiau statudol eisoes yn nodi'n glir y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod plant ag anghenion cymhleth yn faes blaenoriaeth ar gyfer integreiddio. Eleni, mae Byrddau wedi cyhoeddi cynlluniau sy'n nodi'r gwasanaethau integredig y byddant yn eu darparu mewn ymateb i'w hasesiad o'r boblogaeth, gan gynnwys mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

O fewn y cyd-destun o sicrhau darpariaeth gwasanaethau integredig ar gyfer pobl, rydym yn deall bod gan lawer o ranbarthau eisoes is-strwythurau ar waith sy'n canolbwyntio ar wella lles plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanbarthau i drafod ymhellach sut maent yn blaenoriaethu integreiddio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys yn ystod cyfarfod Gweinidogol diweddar â chadeiryddion rhanbarthol. Bydd hyn yn llywio unrhyw benderfyniad ar strwythurau gorfodol posibl.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd £15 miliwn o arian ychwanegol i gefnogi plant a theuluoedd fel rhan o £30 miliwn o gyllid ychwanegol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol i gefnogi gwaith integredig.

Bydd angen i ni ystyried y berthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chytundebau partneriaeth iechyd meddwl lleol presennol, cyn ymrwymo i ofynion newydd ar gyfer strwythurau cynllunio rhanbarthol.

Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi llunio canllawiau a phecyn cymorth i gefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy integreiddio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen, yn cynnwys ymrwymiad i gadw'r Gronfa Gofal Integredig. Mae £50 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2018-19. Mae cwmplas y gronfa yn cynnwys cefnogi plant ag anghenion cymhleth.

12. Eiriolaeth Iechyd

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

- Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o ddarpariaeth eiriolaeth i rai o dan 18 oed mewn lleoliadau iechyd ac yn symud ymlaen gyda mesurau i sicrhau bod unrhyw fylchau a nodwyd yn cael eu llenwi.
- Bod gwybodaeth cleifion Rhoi Pethau'n lawn yn cael ei diweddarau er mwyn rhoi cyfarwyddyd i bobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch sut gallan nhw gael mynediad i eiriolaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliadau iechyd ledled Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn a Derbyn mewn Egwyddor**

Argymhellodd adroddiad Cadernid Meddwl (Ebrill 2018) y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o ddarpariaeth gyfredol, a'r angen am wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r holl wasanaethau iechyd meddwl, nid y rhai mewn lleoliadau cleifion mewnol yn unig. Roeddem yn fodlon derbyn yr argymhellion hyn.

Rydym yn derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad ar wybodaeth cleifion Rhoi Pethau'n lawn, o ran eirioli ar ran plant a phobl ifanc sydd am wneud cwyn drwy Rhoi Pethau'n lawn ynghylch eu gofal neu driniaeth yn GIG Cymru.

Ym mis Gorffennaf, nododd y Prif Weinidog flaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys dileu'r Cynghorau Iechyd Cymuned a chreu corff annibynnol newydd i roi llais cryfach i bobl mewn perthynas â'u profiadau o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gwaith o nodi manylion a swyddogaethau'r corff newydd yn parhau. Mae hyd a lled swyddogaethau eiriolaeth a chymorth a chyngor ar gwynion y corff newydd yn cael ei ystyried.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at fyrddau iechyd i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol bod angen iddynt gyfeirio plant a phobl ifanc at eu gwasanaethau eirioli os ydynt am wneud cwyn am eu gofal neu driniaeth yn GIG Cymru. Mae MEIC (llinell gymorth gwybodaeth ac eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc) yn gallu cyfeirio plant a phobl ifanc at y gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan fyrddau iechyd.

Atodiad A – Crynodeb o Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhif	Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen	Ymateb Llywodraeth Cymru
1	Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r Bil i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol cyn gynted â phosib i sicrhau bod ymrwymiad y Llywodraeth yn cael ei gyflawni.	Derbyn
2	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ymadawyr gofal ac awdurdodau lleol i gynhyrchu gwybodaeth ariannol glir sydd ar gael yn genedlaethol, i helpu pobl ifanc a'u hymgyngorwyr personol i gael mynediad i'r ystod o grantiau, budd-daliadau a phethau y gallant eu hawlio sydd ar gael iddynt wrth adael gofal	Derbyn
3	Dylai Llywodraeth Cymru newid Cod Ymarfer Rhan 10 i roi grym statudol i'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol, gan gynnwys pob un o'r dogfennau cysylltiedig.	Derbyn
Amddiffyn rhag Ecsbloetio a Thrais		
4	<p>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r polisi wedi'i ddiweddarau ar gyfer ymgynghori eleni, gyda'r nod o gyflawni'r tri phrawf yma'n llawn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am bob plentyn yng Nghymru, heb i neb ohonynt lithro o dan radar y gwasanaethau sydd ar gael i bawb, a'r gymdeithas yn gyffredinol; • Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch; a • Ni ellir cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef y dylai pob plentyn gael cyfle i gael eu gweld, a gwrando ar eu barn, gan gynnwys eu barn am eu haddysg, a'u profiadau. 	Derbyn
5	Darpariaeth Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd yn cynnwys mynediad 24/7 i rota o bediatregwyr ac archwilwyr meddygol fforensig sydd wedi'u hyfforddi'n addas, fel nad oes rhaid i unrhyw blentyn aros am oriau lawer neu hyd yn oed ddyddiau am archwiliad, a bod gwasanaethau cwnsela ac adferiad digonol ar gael i ddiodefwyr ledled Cymru.	Derbyn
Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol		
6	Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu argymhellion adroddiad eu Panel arbenigol, ac yn gwneud addysg perthnasoedd iach yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd. Dylai addysg perthnasoedd iach fod yn seiliedig ar hawliau ac yn cael ei llywio gan ymwneud dysgwyr â'r dyluniad	Derbyn
7	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canlyniadau cyflawni'r cwricwlwm newydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu am eu hawliau, a bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn darparu sylfaen ar gyfer egwyddorion tywys darparu'r cwricwlwm. Dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc gael ei wreiddio'n systematig yng	Derbyn

	nghyfnod nesaf datblygu'r cwricwlwm.	
8	Dylai Llywodraeth Cymru weithredu i gytuno ar fodel ariannu gyda'r pedwar heddlu er mwyn sicrhau bod holl ysgolion Cymru yn parhau i fwynhau manteision perthynas gadarnhaol gyda swyddog cyswllt â'r heddlu, a bod rôl y rhaglen o ran cyfrannu at Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn y cwricwlwm newydd yn gydlynus ac yn addas at y dyfodol. Dylid cynnal asesiad o effaith unrhyw benderfyniad ynghylch dyfodol y Rhaglen ar hawliau plant	Derbyn
9	Dylai'r cynllun newydd [cymhorthdal teithio], fan lleiaf, yn sicrhau bod tocyn plentyn yn cael ei estyn i 18 oed.	Derbyn
10	Dylid cynnal CRIA ar gynigion i ddiwygio'r cynllun Fy Nhocyn Teithio er mwyn canfod unrhyw grwpiau a allai gael eu heithrio, fel rhieni ifanc a gofalwyr, ymadawyr gofal sy'n dilyn hyfforddiant yn y gweithle neu brentisiaeth, a'r rhai sy'n gwneud gwaith gwirfoddol.	Derbyn
11	Dylai canllawiau 'Parchu Eraill' Llywodraeth Cymru ofyn bod ysgolion yn integreiddio strategaethau gwrthfwlio cadarn a lywiwyd gan blant a phobl ifanc, fel rhan o ddull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant.	Derbyn
Safon Byw sy'n Ddigonol		
12	Dylai Llywodraeth Cymru weithredu drwy fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn sefydlu strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol i blant a phobl ifanc, a fydd yn adrodd i'r BPRh. Dylen nhw fynnu hefyd bod BPRhau yn cymryd camau i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl plant i dimau amlddisgyblaeth, a fydd yn ymateb i anghenion eu poblogaethau plant a phobl ifanc lleol y mae angen cefnogaeth a thriniaeth emosiynol, ymddygiad, neu iechyd meddwl arnynt.	Derbyn mewn Egwyddor
13	Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau pendant tuag at gomisiynu darpariaeth newydd sy'n gallu diwallu anghenion gofal ac iechyd meddwl y nifer bychan o bobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiad ac emosiynol heriol iawn, nad oes fawr ddim darpariaeth breswyl addas ar eu cyfer yng Nghymru ar hyn o bryd.	Derbyn
14	Dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad o ddarpariaeth eiriolaeth i rai o dan 18 oed mewn lleoliadau iechyd ac yn symud ymlaen gyda mesurau i sicrhau bod unrhyw fylchau a nodwyd yn cael eu llenwi.	Derbyn
15	Dylid diweddarau gwybodaeth cleifion Rhoi Pethau'n lawn er mwyn rhoi cyfarwyddyd i bobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch sut gallan nhw gael mynediad i eiriolaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliadau iechyd ledled Cymru.	Derbyn mewn Egwyddor